# Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017

**2017 dccc 1**

## RHAN 8

DEHONGLI A DARPARIAETHAU TERFYNOL

*Adolygiad annibynnol*

### 77 Adolygiad annibynnol o’r dreth trafodiadau tir

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru wneud trefniadau i adolygiad annibynnol o’r dreth trafodiadau tir gael ei gwblhau cyn diwedd y cyfnod o 6 blynedd sy’n dechrau â’r diwrnod y daw’r is-adran hon i rym.

(2) Ar ôl i’r adolygiad gael ei gwblhau, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad arno.

(3) Caiff y trefniadau a grybwyllir yn is-adran (1) gynnwys—

(a) talu treuliau y mae person yn mynd iddynt wrth gynnal yr adolygiad (neu wrth gynorthwyo i’w gynnal);

(b) darparu cymorth (gan gynnwys cymorth ariannol) i berson o’r fath;

(c) cyfarwyddo ACC i gynorthwyo â’r gwaith o gynnal yr adolygiad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 77 mewn grym ar 25.5.2017, gweler **a. 81(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Adran 77.